

Cynllun Efe

Mae Cynllun Efe wedi cynnal Gweithiwr Ieuencid Crsitnogol yn nalgylch papur bro *Eco'r Wyddfa* ers mis hydref 2008.

Caiff Apêl Ariannol Flynyddol Efe ei gwneud yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth.

Mae'r cynllun 'Un o Fil' ac 'Un o Gant' yn parhau gennym fel ffyrdd posibl o gefnogi'r gwaith. Mae 'Un o Fil' yn anelu at gael 1,000 o bobl i gyfrannu £20 y flwyddyn; a'r cynllun 'Un o Gant' yn anelu at gael 100 o bobl i gyfrannu £100. Gwahodddwn aelodau'r eglwysi lleol i fod yn 'Un o Fil' neu yn 'Un o Gant'.

Cafwyd cefnogaeth hael gan lawer, a gwerthfawrogwn hynny'n fawr iawn. Mae rhai wedi ymrwmo i gyfrannu yn fisol ers blwyddyn neu ddwy, ac eraill yn ymateb i'r Apêl Flynyddol. Os medrwyd gyfrannu unrhyw swm, neu os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am waith Efe, cysylltwch â'r Gweinidog. Mae sieciau i'w gwneud yn daladwy i 'Cynllun Efe'.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Wener, Mawrth 4: Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwirydd yn Ebeneser am 6.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 6: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Y mis nesaf - Deiniolen

Chwefror 28

4.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Mawrth 6

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Mawrth 13

5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Mawrth 6: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Harri Parri, Caernarfon. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mawrth 6: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Mawrth 6: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan.

CARMEL

Nos Wener, Mawrth 4: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 6: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Mawrth 4: Cynhelir y Cyfarfod Gweddi wythnosol yn Cartref, Caethro am 10.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Chwefror 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Mawrth 6

10.00 a.m. - Parchg Harri Parri

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Mawrth 13

10.00 a.m.—Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m.—Oedfa MOLI

Mawrth 20 (Sul y Blodau)

10.00 a.m. —Mr Euron Hughes

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Mawrth 27 (Sul Pasg)

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 672: Dydd Sul, 28 Chwefror, 2016

Gohirio'r Wyl

Yn ôl y drefn arferol, mae hi i fod yn Ddydd Gŵyl Ddewi yfory. Ond dyw hi ddim. Chaiff plant ddim gwisgo crysau pêl droed a rygbi Cymru yn yr ysgol yfory. Fydd pobl ddim yn gwisgo cenhinen pedr yn eu cot. A fydd dim rhaglenni arbennig ar y teledu i ddathlu dydd ein nawddsant. Mae'r Wyl wedi ei gohirio.

Ond rhag i neb boeni fod yr Wyl wedi ei dileu, rhaid cofio mai wedi ei gohirio am ddiwrnod yn unig y mae hi. Fel arfer, heddiw fyddai dydd olaf y mis bach; ac mi fyddai'n Fawrth y cyntaf yfory ac felly'n Wyl Ddewi. Ond mae eleni'n flwyddyn naid, sy'n golygu gwneud lle i un dydd ychwanegol yng nghynffon mis Chwefror cyn y cawn ddathlu Gŵyl Ddewi. Wnaiff y gohirio hwnnw ddim gwahaniaeth o gwbl i'r dathliadau, ond mae'n rhoi'r cyfle a ddaw bob pedair blynedd i bawb a aned ar Chwefror 29ain i ddathlu eu pen-blwydd ar y diwrnod cywir.

A phan ddaw dydd Mawrth, bydd y crys coch a'r wisg Gymreig, y cennin a'r genhinen pedr yn harddu'r ysgol a'r stryd a'r sgrin. Fe ddethlir eleni eto ein Cymreictod a'n hiaith a'r cyfan sydd o bwys i'n cenedl. Ardderchog o beth fydd hynny wrth gwrs. Ac fe sonnir am Dewi. Dewi, yr un a'n siarsiodd i wneud y pethau bychain. Dewi, y dyn o'r Chweched Ganrif bell a ddaeth yn symbol o barhad iaith a diwylliant a gwerthoedd y Cymry dros y canrifoedd ers hynny.

Ychydig a wyddom am Dewi. Wn i ddim a fydd cyfrol newydd Gerald Morgan, *Ar Drywydd Dewi Sant*, a ddisgrifir gan y cyhoeddwr, Y Lolfa, fel 'yr unig gyfrol gynhwysfawr am nawddsant Cymru' yn cyflwyno i ni wybodaeth newydd amdano ai peidio. Yr un peth amlwg a wyddom yw mai dyn y Ffydd a'r Efengyl Gristnogol oedd Dewi. Pa mor wir bynnag yw'r straeon sydd gennym am y dyn hwn, a beth bynnag arall sy'n hysbys amdano, fe wyddom mai un o genhadon cynnar Crist yng Nghymru oedd o. Ac yn rhyfedd iawn, yr union beth hwnnw sydd mewn peryg o gael ei anghofio neu ei anwybyddu gan lawer o bobl a fydd yn sôn amdano ac yn dathlu ei fywyd a'i gyfraniad, a'i esiampl a'i neges yr wythnos hon.

Pethau i'w dathlu yw diwylliant ac iaith a chenedl. Rhoddion gwerthfawr ydynt, a diolch i Dduw am bob awydd a welir i'w dathlu ar Wyl Ddewi ac i'w trysori a'u gwarchod bob dydd arall. Ond does dim rhaid wrth Dewi i wneud hynny os nad yw'r Ffydd yr oedd Dewi yn ei chyhoeddi'n rhan o'r darlun hefyd. Dathlwch bopeth da sy'n rhan o'n hetifeddiaeth Gymraeg a Chymreig, ond peidiwch â thynnu Dewi i mewn i'r dathlu hwnnw os nad yw'r Efengyl a'r Crist yr oedd o'n eu cyflwyno i'w bobl o leiaf yn cael eu cydnabod a'u parchu. Os sonnir am Dewi heb sôn am Grist, nid gohirio Gŵyl Ddewi am ddiwrnod fydd hynny ond dileu'r Wyl yn llwyr i bob pwrpas.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Dychwel, ARGLWYDD, gwared fy enaid; achub fi er mwyn dy ffyddlondeb ... Gwrandawodd yr ARGLWYDD ar fy neisyfiad, ac y mae'r ARGLWYDD yn derbyn fy ngweddi' (Salm 6:4 a 9).

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 4.00 o'r gloch gan y Parchg W R Williams, Y Felinheli. Croeso, a diolch unwaith eto.

Bydd Oedfa Gwyl Ddewi yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Oedfa Gwyl Ddewi

Dymunwn yn dda i bawb a fydd yn rhan o'r Oedfa Gwyl Ddewi a gaiff ei chynnal yng Ngharmel Llanllechid yn lle'r Ysgol Sul heddiw.

Bydd paned a chacen i bawb ar ôl yr oedfa, a hynny'n gyfle i sgwrsio ac i gryfhau'r gymdeithas.

Ebeneser

Yn dilyn y drafodaeth a gafwyd yn ystod yr oedfa fore Sul diwethaf ynglŷn ag agor a chau'r capel ar fore Sul mae swyddogion Ebeneser yn awgrymu mai'r peth gorau i'w wneud erbyn hyn yw peidio â chynnal oedfa'r bore ond annog pawb o aelodau Ebeneser a Cefnywaun i ymuno â'r oedfa undebol a gynhelir yn y pnawn neu gyda'r nos.

Bydd cyfle i aelodau Ebeneser drafod y mater yn ystod yr oedfa a gynhelir am 10.00 o'r gloch fore Sul nesaf, Mawrth 6. Awgrym swyddogion Ebeneser yw ein bod yn cychwyn y drefn newydd hon ar unwaith wedi'r Sul nesaf.

Bydd hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng y ddwy eglwys ac yn golygu y bydd yn gynulleidfa fwy gyda'i gilydd ar y Sul.

Oedfa Dydd Gweddi

Bydd merched Deiniolen yn cynnal oedfa flynyddol Dydd Gweddi Byd-eang y Chwirydd yn Ebeneser am 6.00 o'r gloch nos Wener, Mawrth 4. Estynnir croeso cynes i chi i'r oedfa. Gwneir casgliad yn ôl yr arfer.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Margaret Hughes, Llys Helyg, Talybont a fu farw mewn cartref gofal yng Nghilgwri ar Fawrth 10. Cynhelir gwasanaeth angladd yn Amlosgfa Bangor am 10.00 o'r gloch ddydd Gwener, Mawrth 4.

Aelodau Newydd

Yn ystod yr oedfa Gymun nos Sul, Mawrth 7 derbyniwyd Eilir ac Ann Marie Jones, Llwynpenddu Isaf, Llanllechid yn aelodau o'r eglwys yng Ngharmel.

Estynnwn groeso cynnes iddynt atom ac edrychwn ymlaen at gael eu cwmni ym mywyd yr eglwys. Gobeithio y byddant yn gartrefol yn ein plith. Roedd Ann Marie eisoes wedi dod yn un o athrawon yr Ysgol Sul yng Ngharmel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Dechreuadau

Cafodd y Gweinidog a chynrychiolwyr o eglwysi Bethlehem a Charmel gyfarfod â'r Parchg Casi Jones bawn Iau i drafod gweithgareddau sydd i'w cynnal yn dilyn y gyfres 'Dechreuadau'. Bwriedir cynnal cyfarfod yng Ngharmel cyn y Pasg ac ym Methlehem ddiwedd Mai. Ceir manylion llawn am y naill a'r llall yn nes ymlaen.

Diolch

Mae aelodau Bethlehem, Talybont yn falch o fod yn ôl yn y capel ers pythefnos wedi'r difrod a wnaed gan y lligfogydd ddydd San Steffan. Mae peth gwaith i'w wneud eto cyn y bydd y festri'n barod.

Dymuna'r aelodau ddiolch yn arbennig i'r Parchg John Mathews ac aelodau Eglwys St Cross am y croeso a gafwyd i gynnal oedfaon Bethlehem yn Ysgoldy Maesygroes ar y Suliau pan nad oed modd defnyddio'r capel.

Gwyl Ddewi

Nos Fawrth, Mawrth 1, bydd gwasanaeth byr yn cael ei gynnal yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis oddeutu 6.00 o'r gloch. Holwch un o aelodau'r eglwys er mwyn cael y wybodaeth lawn am yr oedfa a'r orymdaith sydd o bosibl i'w chynnal cyn hynny.

Cwrs Ieuentid

Mae'n dda deall fod y criw a fu yn y Cwrs Ieuentid yng Ngholeg y Bala dros y Sul diwethaf wedi mwynhau eu hunain a chael amser da.

Unwaith eto, diolch yn fawr i Andrew Settatee am fynd yno efo'r bobl ifanc. Gobeithio ei fod yntau wedi mwynhau'r Cwrs a chael ei galonogi.

Cymdeithas Deiniolen

Cynhaliwyd y Gymdeithas Undebol yn Neiniolen nos Lun diwethaf. Diolch i Mr John Llywelyn Williams am arwain y noson a chroesawu'r siaradwr gwadd.

Cymdeithas Llanberis

Cynhelir Swper Blynnyddol Cymdeithas Undebol Llanberis nos Fawrth, Mawrth 8 yng Ngwesty'r Fictoria. Bydda angen bod yno erbyn 7.00 o'r gloch, yn Neuadd Arfon i fyny'r grisiau. Bydd Eifion a Gwyneth Roberts, Sw'n y Gwynt yn falch o gael yr arian cyn hynny.

Medal Ysgol Sul

Mi ges anrheg yn ystod yr wythnos, sef medal fechan a fathwyd i ddathlu Trydydd Jiwibili yr Ysgol Sul, sef 150 mlynedd ers cychwyn gwaith yr Ysgol Sul yng Nghymru (1785-1935). Mae'r dyddiad 1936 ar y fedal i nodi mai yn ystod y flwyddyn honno y bu'r dathlu. Gallwn ddiolch fod gwaith yr Ysgol Sul yn para, 80 mlynedd yn ddiweddarach eto. Tybed faint o'r medalau hyn sydd dal ar gael?